Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

David Evans
Cyfarwyddwr
Bwyty Dylan

3 Ebrill 2019

Annwyl David,

Ar ran y Pwyllgor, diolch am y croeso a gawsom gennych ddydd Iau diwethaf.

Fel y gwyddoch, mae dyfodol polisi bwyd yng Nghymru yn faes allweddol gan y Pwyllgor. Gwelsom fod ein trafodaethau gyda chi yn addysgiadol a diddorol. Gwnaeth y cynnyrch ardderchog a gynigir gennych argraff arbennig iawn arnom, a hynny mewn man y gellir ond ei ddisgrifio fel lle delfrydol.

Roeddem yn hoff iawn o ethos eich cwmni, a ddisgrifiwyd gennych gyda chymaint o frwdfrydedd heintus. Mae'r pwyslais rydych chi'n ei roi ar darddiad a bwyd lleol yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan eich cwsmeriaid. Cawsom ein plesio hefyd gan eich pwyslais ar ddatblygu eich pobl a buddsoddi ynddynt.

Roeddem yn falch iawn o glywed am eich uchelgais i ehangu'r busnes ymhellach ac i agor rhagor o fwytai. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddymuno'n dda i chi a'ch tîm gyda'r fenter gyffrous hon.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565